

Law Commission
Reforming the law

# TROSEDDAU CASINEB: CRYNODEB O'R PAPUR YMGYNGHORI

## Y CRYNODEB HWN

Mae'r crynodeb hwn yn darparu trosolwg ar y prif faterion rydym yn eu trafod yn ein Papur Ymgynghori ar Droseddau Casineb. Mae'n egluro pwrpas y prosiect, ac yn ei roi yn ei gyd-destun. Rydym hefyd yn gofyn rhai o'r cwestiynau pwysicaf sydd yn y papur ymgynghori.

Ar gyfer y rheini sydd â diddordeb penodol yn y pynciau a godir yn y Crynodeb hwn, rydym yn eich annog i ddarllen y rhannau perthnasol o'r Papur Ymgynghori llawn sy'n darparu llawer mwy o fanylion. Mae hyn yn arbennig o wir am sefydliadau sy'n bwriadu paratoi ymateb sefydliadol i'r ymgynghoriad hwn.

Mae hefyd yn bosib ystyried rhai o'r prif faterion yn yr adolygiad hwn drwy ddarllen y crynodeb yn unig, ac ymateb i'r cwestiynau sydd ynddo. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn i aelodau o'r cyhoedd sydd am rannu eu barn am rai o'r prif faterion, ond sydd â llai o ddiddordeb yn y cwestiynau mwy manwl a thechnegol.



## YMATEB I’R YMGYNGHORIAD

| | |
|---|---|
| **Pwy ydyn ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i Lywodraeth er mwyn diwygio’r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth sydd dan sylw?** | Diwygio cyfreithiau sy’n ymwneud â throseddau casineb ac iaith casineb, yn cynnwys troseddau gwaethygedig, dedfrydau estynedig a throseddau sy’n ysgogi casineb. |
| **Gan bwy rydyn ni am glywed?** | Hoffem glywed gan gynifer o randdeiliaid â phosibl, yn cynnwys heddgeidwadaeth ymarferwyr cyfraith trosedd, grwpiau hawliau dynol a hawliau sifil, a phobl sydd wedi dioddef troseddau casineb a darparwyr gwasanaethau sy’n eu cynorthwyo. |
| **Ble gallaf ddarllen y Papur Ymgynghori llawn?** | Mae’r Papur Ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan: https://www.lawcom.gov.uk/project/hate-crime/ |
| **Beth yw’r dyddiad cau?** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 24 Rhagfyr 2020. |
| **Sut i ymateb?** | Os ydych yn ymateb i’r Papur Ymgynghori llawn, byddem yn falch o gael ymatebion ar y ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/law-commission/hate-crime<br>Fel arall, gallwch ymateb:<br>1. drwy’r e-bost i hatecrime@lawcommission.gov.uk<br>2. drwy’r post i Hate Crime Team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne’s Gate, Llundain, SW1H 9AG. (Os byddwch yn anfon eich sylwadau drwy’r post, byddai o gymorth os gallech eu hanfon drwy ddull electronig hefyd, os oes modd) |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Ar ôl dadansoddi’r holl ymatebion, byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio, a byddwn yn cyhoeddi’r rhain mewn adroddiad. Mater i Lywodraeth fydd penderfynu a fydd yn gweithredu’r argymhellion. |

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgyngoriadau, a’n polisi ar gyfrinachedd a hepgor enwau mewn ymatebion i’r ymgynghoriad, gweler tudalen i yn y Papur Ymgynghori.

# CYFLWYNIAD

## Beth yw troseddau casineb?

Troseddau casineb yw troseddau presennol (fel ymosod, aflonyddu neu ddifrod troseddol) lle mae'r dioddefwr wedi'i dargedu ar sail un neu ragor o "nodweddion gwarchodedig" – hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a hunaniaeth drawsryweddol. Mae'r drosedd yn cael ei ystyried yn fwy difrifol o ganlyniad i hyn. Yng nghyfraith Cymru a Lloegr, bydd trosedd casineb wedi'i gyflawni:

1. os oedd y drosedd "wedi'i ysgogi gan gasineb" at y nodwedd warchodedig (er enghraifft, bod y drosedd o ymosod ar berson hoyw wedi'i ysgogi gan farn homoffobig); neu
2. os oedd y diffynnydd wedi "dangos gelyniaeth" at y nodwedd warchodedig ar adeg cyflawni'r drosedd (er enghraifft, bod y diffynnydd wedi difwyno Synagog drwy beintio swastica arni).

Mae nifer o droseddau "iaith casineb" hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y drosedd o "ysgogi casineb" (er enghraifft, drwy ledaenu deunydd hiliol ymfflamychol) neu'r drosedd o "lafarganu hiliol" mewn gêm bêl-droed.

Mae gan nifer o wledydd eraill gyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb, ond mae amrywiadau mawr yn y nodweddion sy'n cael eu gwarchod, y profion cyfreithiol a ddefnyddir, a'r mecanwaith cyfreithiol ar gyfer canfod bod yr ymddygiad yn drosedd casineb.

## Beth sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn?

Yn yr adolygiad hwn, gofynnwyd i ni edrych ar y gwahanol gyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb yng Nghymru a Lloegr, a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio lle bo'n yn briodol.

Y prif faterion y gofynnwyd i ni eu hystyried yw:

- **Pwy ddylai gael eu gwarchod gan gyfreithiau ar droseddau casineb?** Yn benodol, a ddylid cysoni'r warchodaeth ymysg y nodweddion presennol ac a ddylid ychwanegu unrhyw nodweddion pellach fel rhyw/rhywedd neu oed?
- **Sut y dylai cyfreithiau ar droseddau casineb gweithio?** Yn benodol, a yw'r ystod bresennol o droseddau a dedfrydau estynedig yn gweithio'n dda?

Er nad yw pawb yn cytuno y dylid cael cyfreithiau ar droseddau casineb, ni ofynnwyd i ni adolygu'r cwestiwn sylfaenol a ddylent fodoli o gwbl.

Ni ofynnwyd chwaith am adolygu materion cysylltiedig fel hyfforddiant ac arferion yr heddlu ac erlynwyr, gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau casineb, a mentrau i atal troseddau casineb yn y gymuned. Er hynny, rydym yn cydnabod bod y materion hyn yn bwysig, ac rydym yn cyfeirio atynt lle maent yn berthnasol.

## BETH MAE'R GYFRAITH BRESENNOL YN EI DDWEUD?

Mae nifer o wahanol ddarpariaethau cyfreithiol yn ffurfio cyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfreithiau hyn yn cael eu hystyried yn gymhleth braidd am eu bod yn cynnwys nifer o fecanweithiau cyfreithiol sy'n gorgyffwrdd. Maen nhw hefyd yn cael eu cymhwyso mewn ffordd anghyson at wahanol nodweddion gwarchodedig.

### Troseddau casineb – gwneud troseddau presennol yn fwy difrifol

Ar hyn o bryd, mae cyfreithiau ar droseddau casineb yn gwneud troseddau presennol yn fwy difrifol mewn dwy ffordd. Sef:

- **Troseddau gwaethygedig:** sef fersiynau gwaethygedig ar wahân o 11 o droseddau presennol (yn cynnwys ymosod, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, aflonyddu, a difrod troseddol) sy'n dwyn uchafgosbau mwyaf sy'n uwch drosedd "sylfaen" sy'n gysylltiedig â nhw.
- **Dedfrydau estynedig:** sydd ar gael ar gyfer yr holl droseddau eraill, ac yn gofyn am gynyddu'r ddedfryd, ond o fewn terfyn y gosb bresennol fwyaf sydd ar gael.

Y prawf cyfreithiol ar gyfer troseddau gwaethygedig a dedfrydau uwch yw un ai prawf bod y drosedd wedi'i ysgogi gan elyniaeth at y nodwedd warchodedig, neu brawf bod y diffynnydd wedi dangos gelyniaeth at y nodwedd warchodedig ar adeg cyflawni'r drosedd. Fodd bynnag, un gwahaniaeth pwysig yn achos troseddau gwaethygedig yw bod rhaid profi'r elyniaeth hon yn ystod y treial, yn rhan o'r canfyddiad bod y diffynnydd yn euog o'r drosedd (o flaen rheithgor yn aml), tra bydd hyn yn digwydd ar y cam dedfrydu yn achos dedfrydau estynedig, ar ôl dangos bod y diffynnydd yn euog o'r drosedd ei hun.

Un gwahaniaeth pwysig arall yw bod troseddau gwaethygedig yn berthnasol i elyniaeth hiliol hiliol a chrefyddol yn unig. Mae dedfrydau uwch yn gymwys yng nghyswllt hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a statws trawsryweddol.

Yn 2018/19 hysbyswyd yr heddlu am 103,379 o droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr,[1] cafwyd 12,828 o erlyniadau am droseddau casineb a 10,817 o euogfarnau.[2] Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn ymwneud â nodwedd hil: 76% o'r hysbysiadau i'r heddlu a 78% o'r euogfarnau.

**Yn 2018/19 cafwyd**



**103,379** o hysbysiadau i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr am droseddau casineb



**12,828** o erlyniadau am droseddau casineb



a **10,817** o euogfarnau

[1] "Hate Crime, England and Wales, 2018 to 2019: (15 Hydref 2019), Tabl 2, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/839172/hate-crime-1819-hosb2419.pdf.

[2] Gwasanaeth Erlyn y Goron, "Hate Crime Annual Report" (2018-19), t 30, ar gael yn https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/CPS-Hate-Crime-Annual-Report-2018-2019.PDF.

## Troseddau iaith casineb

Mae'r rhan helaeth o’r achosion o iaith casineb a dargedir ar nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin fel troseddau cyffredinol, sydd wedyn yn cael eu gwaethygu ar sail yr elfen “gelyniaeth” (gweler tudalen 4). Yn benodol:

- Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus o dan adrannau 4A a 5 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986;
- Troseddau cyfathrebiadau sy’n groes i adran 127 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 neu adran 1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988.

Er enghraifft, os bydd person du yn cael ei ddifrïo’n hiliol ar y stryd, gellir cyhuddo’r cyflawnwyr o drosedd yn erbyn y drefn gyhoeddus wedi’i waethygu’n hiliol: fel arfer, y drosedd o achosi aflonyddu, dychryn neu ofid yn groes i adran 5 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, neu’r drosedd mwy difrifol o achosi aflonyddu, dychryn neu ofid yn fwriadol yn groes i adran 4A o’r un Ddeddf. Yn yr un modd, os anfonir cyfathrebiad difrïol tramgwyddus dybryd ar-lein at berson anabl sy'n ymwneud â’i anabledd, gall yr anfonydd fod wedi cyflawni’r drosedd o ddefnyddio rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus yn amhriodol yn groes i adran 127(1)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a gellir cynyddu unrhyw ddedfryd a geir ar sail yr elyniaeth a ddangosodd yr anfonydd at anabledd y dioddefwr.

Fodd bynnag, yn ogystal â hyn mae troseddau penodol o ysgogi casineb sy'n ymwneud â hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol (nid oes trosedd cyfatebol ar gyfer anabledd neu statws trawsryweddol). Mae’r rhain yn droseddau difrifol sy’n dwyn cosb fwyaf o 7 mlynedd o garchar. Mae angen arnynt ganiatâd gan y Twrnai Cyffredinol cyn iddynt gael eu herlyn.

Nid yw’r troseddau hyn yn ymwneud ag ymddygiad sy’n mynegi neu’n ysgogi gelyniaeth neu gasineb at unigolion penodol. Yn hytrach, maent yn ymwneud â ffyrdd o ymddwyn (fel y defnydd o eiriau, deunydd neu ymddygiad) sy’n debygol neu sydd â’r bwriad o beri i eraill gasáu grwpiau cyfan.

Mae’r trothwy ar gyfer erlyn am ysgogi casineb hiliol yn un uchel, ac mae’n uwch byth yn ymwneud â chrefydd a chyfeiriadedd rhywiol. O ganlyniad i hyn, anaml y cymerir camau i erlyn am hyn: yn 2018-19 cafwyd 13 o erlyniadau am droseddau ysgogi casineb, ac roedd 11 o’r rhain wedi arwain at euogfarn.[3] Hwn oedd y nifer uchaf erioed mewn blwyddyn.

**Yn 2018/19 cafwyd**

**13** o erlyniadau am droseddau ysgogi casineb

**11** o’r rhain a arweiniodd at euogfarn

### Ysgogi casineb hiliol

Rhaid i ymddygiad y diffynnydd fod yn “fygythiol, difrïol neu sarhaus.”

Rhaid i’r erlyniad ddangos yn bellach fod y diffynnydd un ai wedi bwriadu ysgogi casineb hiliol neu, yn yr amgylchiadau, fod casineb hiliol yn debygol o gael ei ysgogi.[4]

---

[3] Gweler Gwasanaeth Erlyn y Goron, “Hate Crime Annual Report” (2018-19), t 47, ar gael yn https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/CPS-Hate-Crime-Annual-Report-2018-2019.PDF.

[4] Fodd bynnag, un amddiffyniad i berson na ddangoswyd ei fod wedi bwriadu ysgogi casineb yw nad oedd yn gwybod bod y geiriau, deunydd neu ymddygiad yn fygythiol, difrïol neu sarhaus (ond nid nad oedd yn gwybod

### Ysgogi casineb ar sail crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol

Ychwanegwyd y troseddau hyn ar ôl y trosedd o ysgogi casineb hiliol. Mae rhai gwahaniaethau sy'n eu gwneud yn fwy cyfyng.

1. rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod yn fygythiol (nid difrïol neu sarhaus yn unig);
2. rhaid bod bwriad i ysgogi casineb (nid yw tebygolrwydd o'i ysgogi yn ddigon);
3. mae darpariaethau penodol ar gyfer amddiffyn rhyddid mynegiant sy'n cynnwys, er enghraifft, beirniadaeth o gredoau crefyddol neu ymddygiad rhywiol.

### Llafarganu hiliol mewn gemau pêl-droed

Mae hefyd yn drosedd o dan adran 3(1) o Ddeddf Pêl-droed (Troseddau) 1991 i rywun "lafarganu neu gymryd rhan mewn llafarganu o natur anweddus neu hiliol mewn gêm bêl-droed ddynodedig".

Mae'r drosedd hon yn gyfyngedig i nodwedd hil, ac i gyd-destun "gêm bêl-droed ddynodedig", sydd ar hyn o bryd yn golygu gêm sy'n cynnwys clwb sy'n aelod o'r Gynghrair Bêl-droed, Uwch Gynghrair yr FA, y Gynghrair Genedlaethol, Uwch Gynghrair Cymru, neu Gynghrair Bêl-droed Broffesiynol yr Alban. Nid yw chwaraeon eraill fel rygbi a chriced wedi'u cynnwys yn y drosedd hon.

Y diffiniad o "lafarganu" yw "yngan unrhyw eiriau neu synau dro ar ôl tro" (gan rywun ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag un neu ragor o rai eraill).[5]

Y diffiniad o "natur hiliol" yw "bod yn fater neu'n cynnwys mater sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus i berson oherwydd ei liw, hil, cenedligrwydd (yn cynnwys dinasyddiaeth) neu wreiddiau ethnig neu genedlaethol."[6]

Y gosb fwyaf sydd ar gael am y drosedd hon yw dirwy o £1000,[7] ond byddai euogfarn hefyd yn gallu caniatáu gwneud gorchymyn gwahardd pêl-droed yn erbyn y troseddwr.[8]



bod casineb hiliol yn debygol o gael ei ysgogi).

[5] Deddf Pêl-droed (Troseddau) 1991, adran 3(2)(a)

[6] Deddf Pêl-droed (Troseddau) 1991, adran 3(2)(b)

[7] Deddf Pêl-droed (Troseddau) 1991, adran 5(2).

[8] Deddf Gwylwyr Pêl-droed 1989, Atodlen 1, para m.

## SUT MAE'R CYFREITHIAU AR DROSEDDAU CASINEB WEDI DATBLYGU?

Mae'r cyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb yng Nghymru a Lloegr wedi datblygu yn ystod nifer o gyfnodau yn y degawdau diwethaf, a'r cyfnod rhwng 1998 a 2012 oedd yr un mwyaf prysur. Yn y cyfnod hwn, sefydlwyd y drefn "troseddau gwaethygedig" o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998[9] ar gyfer achosion penodol a waethygwyd yn hiliol (1998) neu'n grefyddol (2001)[10] am rai troseddau penodedig, a chyflwynwyd trefn statudol gyfochrog o ddedfrydau estynedig ar gyfer yr holl droseddau eraill.[11] Yn 2003 ychwanegwyd nodweddion cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd, a symudwyd y drefn dedfrydau estynedig i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.[12] Ychwanegwyd hunaniaeth drawsryweddol at y drefn dedfrydau estynedig yn 2012.[13]

Yn y cyfamser, roedd y drosedd o ysgogi casineb hiliol, sy'n dyddio o 1965,[14] wedi'i ddyblygu i ryw raddau ar gyfer casineb crefyddol yn 2006[15] a chasineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn 2008,[16] er bod trothwy troseddol uwch wedi'i osod ar gyfer yr ychwanegiadau diweddarach hyn.

### Ein hadolygiad blaenorol o gyfreithiau ar droseddau casineb

Yn 2012, gofynnodd y llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith ystyried y gwahaniaethau yn y ffyrdd o drin y pum nodwedd sydd wedi'u cydnabod mewn cyfreithiau ar droseddau casineb: hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a hunaniaeth drawsryweddol. Gofynnwyd i ni ystyried a ddylai cyfraith trosedd gael ei hymestyn i gynnwys yr holl nodweddion hyn yn gydradd.

Yn ein hadroddiad yn 2014,[17] roeddem wedi argymell cynnal adolygiad ehangach o gyfreithiau ar droseddau casineb ond, yn niffyg adolygiad o'r fath, roeddem wedi argymell y dylid ehangu'r drefn troseddau gwaethygedig i gynnwys pob un o'r pum nodwedd hyn. Bryd hynny, nid oeddem wedi canfod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau ymestyn y troseddau "ysgogi" casineb i gynnwys nodweddion anabledd a hunaniaeth drawsryweddol.

[9] Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, adrannau 28 i 32.

[10] Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001, rhan 5.

[11] Cyflwynwyd gofyniad statudol yn adran 82 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 am ddedfrydau uwch mewn perthynas â gwaethygu hiliol. Trosglwyddwyd y darpariaethau hyn i adran 153 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, ac wedyn ychwanegwyd gwaethygu crefyddol gan adran 39(7) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001.

[12] Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adrannau 145 a 146.

[13] Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, atodlen 21, rhan 1.

[14] Gweler Pennod 18 am ddisgrifiad hanesyddol mwy manwl.

[15] Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, rhan 3A, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006.

[16] Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, rhan 3A, fel y'i mewnosodwyd gan adran 74 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

[17] Troseddau Casineb: A Ddylid Ymestyn y Troseddau Presennol? (2014) Law Com No 348. Mae'r adroddiad llawn yn Saesneg ond mae yna grynodeb ar gael yn Gymraeg: Troseddau Casineb: A Ddylid Ymestyn y Troseddau Presennol? Crynodeb i'r sawl nad ydynt yn arbenigwyr (2014) Law Com No 348 (Crynodeb)

## BETH YW’R RHESYMAU DROS GYFREITHIAU AR DROSEDDAU CASINEB?

Mae nifer o resymau dros ddewis gweithredu cyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb yng Nghymru a Lloegr ac yn y rhan fwyaf o awdurdodaethau eraill tebyg.

Y rhesymau a nodir amlaf yw:

1. y niwed ychwanegol y mae troseddau casineb yn ei achosi i’r dioddefwr cysylltiedig ac i’r gymuned ehangach;
2. swyddogaeth symbolaidd y ddeddfwriaeth fel ffordd i fynd i’r afael â rhagfarn ac anghydraddoldeb;
3. y manteision ymarferol sy’n deillio ohono, fel y gallu i fonitro tueddiadau a chymell dioddefwyr i roi gwybod am droseddau.[18]

Ym Mhennod 3 o’r Papur Ymgynghori rydym yn ystyried yn fwy manwl y dadleuon damcaniaethol sy’n sail i gyfreithiau ar droseddau casineb. Rydym hefyd yn ystyried y seiliau rhesymegol penodol dros gyfreithiau ar droseddau casineb, yn enwedig:

1. amddiffyn grwpiau rhag trais wedi’i ysgogi gan iaith casineb a chynnal y drefn gyhoeddus;
2. amddiffyn grwpiau bregus rhag y niwed emosiynol a seicolegol o iaith casineb;
3. atal allgáu cymdeithasol ac ymyleiddio grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas;
4. gosod y terfynau ar gyfer ymddygiad derbyniol, gan feithrin cydlyniant cymdeithasol.

Rydym hefyd yn ystyried rhai o’r beirniadaethau pwysig o gyfreithiau ar droseddau casineb ac iaith casineb; yn benodol, pryderon am ymyrryd â hawliau pwysig eraill fel rhyddid mynegiant.



[18] Chakraborti a Garland, *Responding to Hate Crime – the case for connecting policy and research* (2015), t 1

## BETH YW'R BEIRNIADAETHAU O'R GYFRAITH BRESENNOL?

Ers cyflwyno troseddau gwaethygedig yn 1998, mae nifer y nodweddion a warchodir, a'r mecanweithiau i'w gwarchod, wedi cynyddu'n sylweddol. Bellach mae gan Gymru a Lloegr un o'r setiau mwyaf cynhwysfawr o ddeddfwriaeth ar droseddau casineb o unrhyw awdurdodaethau tebyg. Mae'r cyfraddau o adroddiadau ac euogfarnau am droseddau casineb yn uchel iawn hefyd yn ôl safonau rhyngwladol. Er hynny, fel rydym yn disgrifio ym Mhennod 8, mae nifer o feirniadaethau o'r cyfreithiau fel y maent ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Y **gwahaniaethau** o ran y ffordd o warchod y pum nodwedd bresennol yn y gyfraith. Mae grwpiau sydd wedi'u gwarchod i raddau llai – pobl LHDT a phobl anabl yn enwedig – yn dadlau bod hyn yn anghywir mewn egwyddor, a'i fod yn cael effaith niweidiol yn ymarferol.
2. **Cymhlethdod a diffyg eglurder** yn y cyfreithiau presennol, a geir mewn nifer o wahanol statudau, gan eu bod yn defnyddio nifer o fecanweithiau cyfreithiol sy'n gorgyffwrdd, ac yn trin y gwahanol nodweddion gwarchodedig yn anghyson.
3. **Yr anhawster penodol wrth erlyn am drosedd casineb anabledd,** a'r beirniadu ar y prawf "gelyniaeth" yn y cyd-destun hwn.
4. Dadleuon o blaid ymestyn y gyfraith i gynnwys **nodweddion gwarchodedig** eraill er mwyn gwrthsefyll gwahanol fathau eraill o gasineb a rhagfarn mewn cymdeithas – yn enwedig casineb at fenywod a rhagfarn ar sail oed, a gelyniaeth at grwpiau eraill a dargedir fel pobl ddigartref, gweithwyr rhyw, pobl sy'n arddel credoau athronyddol anghrefyddol (er enghraifft, dyneiddwyr) ac is-ddiwylliannau amgen (er enghraifft, pyncs neu gothiaid). Cafwyd beirniadaeth hefyd o'r iaith a ddefnyddir i ddiffinio rhai o'r categorïau presennol – yn enwedig y diffiniad cyfreithiol presennol o "drawsrywedd".

Prif bwrpas y cynigion ar gyfer diwygio sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Ymgynghori yw ymateb i'r pryderon hyn, a hefyd cadw agweddau ar y gyfraith bresennol sy'n gweithio'n dda.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o feirniadaethau mwy cyffredinol o'r ymateb gan gyfiawnder troseddol i droseddau casineb sydd heb gysylltiad mor uniongyrchol â diwygio cyfreithiol:

1. **Gorfodi cyfreithiau** ar droseddau casineb mewn ffordd anghyson ymysg yr heddlu, erlynwyr a'r farnwriaeth.
2. **Y rhwystrau i adrodd am droseddau** a wynebir gan rai grwpiau. Gall y rhain gynnwys graddau'r cam-drin a'i normaleiddio, diffyg gwybodaeth am hawliau, diffyg ymddiriedaeth mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ac ofnau penodol eraill – fel yr ofn am gael eu datgelu a wynebir gan rai unigolion a dargedwyd ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol.
3. **Y cyfyngiadau mewn ymateb sydd wedi'i seilio'n llwyr ar gyfiawnder troseddol,** a'r angen i fynd i'r afael ag achosion troseddau casineb ac i ddarparu cymorth digonol i ddioddefwyr.

Mae'r pryderon hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn i ryw raddau. Er hynny, ym Mhennod 20 rydym yn gofyn a ddylid cyflwyno Comisiynydd Troseddau Casineb i helpu i gyd-drefnu ymatebion i'r pryderon hyn.

## BETH YW EIN PRIF GYNIGION DROS DRO AR GYFER DIWYGIO?

Rydym yn gwneud nifer o gynigion dros dro yn y Papur Ymgynghori mewn ymateb i'r pryderon a nodwyd. Yn fyr, sef:

1. Pennu meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cydnabod unrhyw nodweddion ychwanegol mewn cyfreithiau ar droseddau casineb.
2. Ychwanegu nodwedd rhyw/rhywedd i gyfreithiau ar droseddau casineb, ond nodi bod angen mwy o ystyriaeth i oblygiadau hyn yng nghyd-destun troseddau rhywiol a cham-drin domestig. Rydym hefyd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynglyn â nodweddion "oed", "gweithwyr rhyw", "digartrefedd", "is-ddiwylliannau amgen" a "chredoau athronyddol".
3. Ymestyn y warchodaeth a geir gan droseddau gwaethygedig a throseddau ysgogi casineb fel bod pob un o'r nodweddion gwarchodedig presennol, ac unrhyw nodweddion a ychwanegir (er enghraifft, rhyw/rhywedd), yn cael eu trin yn gyfartal gan y gyfraith.
4. Ychwanegu troseddau gwaethygedig penodedig eraill – yn enwedig y "troseddau cyfathrebiadau" yn adran 127 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac adran 1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988.

Rydym hefyd yn trafod diwygiadau posibl eraill ac yn gofyn am farn amdanynt. Y pwysicaf o'r rhain yw:

1. Ystyried darparu ar gyfer cymhwyso dedfrydau uwch at ystod ehangach o nodweddion heblaw'r rheini a ddiffiniwyd at ddibenion troseddau gwaethygedig, fel y gellir cydnabod wrth ddedfrydu fod achosion penodol o elyniaeth ar sail nodweddion yn fath o drosedd casineb.
2. Ystyried diwygio'r prawf ar gyfer cymhwyso cyfreithiau ar droseddau casineb fel y bydd yn fwy addas ar gyfer adnabod mathau penodol o droseddu sy'n cael eu targedu at bobl anabl.
3. Ystyried sefydlu Comisiynydd Troseddau Casineb i hyrwyddo'r arferion gorau ar gyfer atal troseddau casineb a chynorthwyo dioddefwyr troseddau casineb.
4. Cydgrynhoi'r troseddau casineb penodol a diwygiadau cysylltiedig mewn un "Ddeddf Troseddau Casineb"

Rydym yn rhoi disgrifiad manylach isod o'r cynigion dros dro hyn a diwygiadau posibl eraill, yn cynnwys eu manteision a'u cyfyngiadau.

### Nodweddion ychwanegol y gellid eu cynnwys

Yn ystod ein cyfarfodydd cyntaf, mynegwyd barn amrywiol am ba nodweddion y dylid eu gwarchod drwy gyfreithiau ar droseddau casineb. Prin oedd y rheini a gynigiodd ddileu amddiffyniad i unrhyw un o'r grwpiau presennol, ond roedd rhai pobl yn dadlau y dylem droi'n gyfan gwbl oddi wrth ddull seiliedig ar nodweddion o ddelio â throseddau casineb, a chydnabod y niwed a geir o fynegi casineb a gelyniaeth am nodweddion personol o bob math.

Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad dros dro fod mathau penodol o elyniaeth a thargedu sy'n arbennig o gyffredin a niweidiol mewn cymdeithas, a'i bod yn bwysig bod y gyfraith yn cydnabod yn glir y grwpiau a dargedir.

Ym Mhennod 10 rydym yn ceisio pennu meini prawf ar gyfer dethol unrhyw nodweddion ychwanegol. Rydym yn adolygu amrywiaeth o lenyddiaeth academaidd ar y pwnc hwn ac yn dod i'r casgliad dros dro nad oes un maen prawf penodol sy'n hollol foddhaol fel ffordd i ddethol nodwedd i'w chynnwys. Yn lle hynny, rydym yn cynnig bod tri maen prawf y dylid eu hystyried:

1. **Prawf o angen:** tystiolaeth bod targedu troseddol seiliedig ar ragfarn neu elyniaeth at y grŵp yn digwydd yn gyffredin.
2. **Niwed ychwanegol:** tystiolaeth bod targedu troseddol seiliedig ar elyniaeth neu ragfarn at y nodwedd yn achosi niwed ychwanegol i'r dioddefwr, i aelodau'r grŵp a dargedir, ac i gymdeithas ehangach.
3. **Priodoldeb:** fe fydd gwarchod y nodwedd yn; ffitio'n rhesymegol i fframwaith ehangach y troseddau a dedfrydau gan weithio'n ymarferol mewn ffordd fydd yn defnyddio adnoddau'n effeithiol, yn ogystal â bod yn gyson â hawliau pobl eraill.

Yn y penodau sy'n dilyn (11 i 14) rydym yn cymhwyso'r meini prawf hyn at nifer o wahanol nodweddion sydd wedi'u cynnig.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 1**

Ein cynnig dros dro yw mai'r meini prawf y dylid eu hystyried ar gyfer ychwanegu unrhyw nodweddion pellach i gyfreithiau ar droseddau casineb yw:

- **Prawf o angen:** tystiolaeth bod targedu troseddol seiliedig ar ragfarn neu elyniaeth at y grŵp yn ddigwyddiad cyffredin.
- **Niwed ychwanegol:** tystiolaeth bod targedu troseddol seiliedig ar elyniaeth neu ragfarn at y nodwedd yn achosi niwed ychwanegol i'r dioddefwr, i aelodau'r grŵp a dargedir, ac i gymdeithas ehangach.
- **Priodoldeb:** fe fydd gwarchod y nodwedd yn; ffitio'n rhesymegol i fframwaith ehangach y troseddau a dedfrydau gan weithio'n ymarferol mewn ffordd fydd yn defnyddio adnoddau'n effeithiol, yn ogystal â bod yn gyson â hawliau pobl eraill.

Ydych chi'n cytuno?

**Y nodweddion presennol: hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, trawsrywedd**

Ym Mhennod 11 rydym yn ystyried y pum nodwedd warchodedig bresennol, gan nodi yn achos pob un o'r pump ein bod yn credu bod achos cryf o blaid eu cynnwys o hyd mewn cyfreithiau ar droseddau casineb ar sail y meini prawf a gynigiwyd ym Mhennod 10.

Rydym hefyd yn ystyried rhai diwygiadau pellach i'r diffiniadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd:

- Cynnwys "anrhywioldeb" yn y diffiniad o gyfeiriadedd rhywiol.
- Diwygio'r diffiniad o drawsrywedd i gyfeirio'n benodol at bobl sy'n drawsryweddol, sy'n anneuaidd, yn croeswisgo neu'n rhyngrywiol.
- Ystyried a ddylai'r diffiniad o anabledd gynnwys rhagdybiaeth gyfeiliornus nad yw person yn anabl (fel y gall y gyfraith ymateb i gam-drin a thrais a brofir gan bobl anabl sy'n cael eu herio wrth ddefnyddio gwasanaethau hygyrch i bobl anabl).

Byddwn yn croesawu sylwadau ychwanegol am y cynigion dros dro hyn.



### Menywod, rhyw neu rywedd

Ym Mhennod 12 rydym yn ystyried yr achos o blaid ychwanegu'r nodwedd "menywod", "rhyw" neu "rywedd" at y rhestr o nodweddion gwarchodedig, gan gymhwyso'r meini prawf ym Mhennod 10. Rydym yn dod i'r casgliad bod dadl gref mewn egwyddor o blaid cynnwys hyn oherwydd y dystiolaeth helaeth am dargedu menywod, ac am y niwed ychwanegol y mae hyn yn ei achosi. Felly ein cynnig dros dro yw y dylid cynnwys nodwedd "rhyw neu rywedd". Er hynny, rydym hefyd yn nodi bod pryderon ymarferol ynghylch y maen prawf "priodoldeb"; yn enwedig y risg y byddai cyfreithiau ar droseddau casineb yn gallu bod yn anfanteisiol mewn rhai cyd-destunau fel cam-drin domestig a throseddau rhywiol. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd i liniaru'r pryderon hyn.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 2**

A ddylai nodwedd "rhyw neu rywedd" gael ei hychwanegu at y nodweddion mae cyfreithiau ar droseddau casineb yn warchod?

### Oed

Rydym hefyd yn ystyried nodwedd "oed" yng nghyd-destun y meini prawf dethol ym Mhennod 10. Rydym yn nodi'r heriau a wynebir gan bobl hŷn ar ffurf cam-drin pobl hŷn a gwahaniaethu ar sail oed, a hefyd yr anawsterau a brofir gan bobl ifanc. Rydym yn dod i'r casgliad bod dadl bosibl o blaid ychwanegu "oed". Fodd bynnag, nid yw'n glir bod llawer o'r troseddu a brofir gan bobl hŷn a phobl ifanc yn deillio o elyniaeth at "oed" yn benodol (yn hytrach na thargedu ar sail ffactorau sefyllfaol fel ynysigrwydd neu anabledd).

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 3**

A ddylai nodwedd "oed" gael ei hychwanegu at y nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan gyfreithiau ar droseddau casineb?



### Nodweddion eraill: gweithwyr rhyw, pobl ddigartref, is-ddiwylliannau amgen a chredoau athronyddol

Ym Mhennod 13 rydym yn ystyried nifer o nodweddion eraill y cynigiwyd eu cynnwys mewn cyfreithiau ar droseddau casineb, yn benodol: gweithwyr rhyw, pobl ddigartref, is-ddiwylliannau amgen a chredoau athronyddol. Rydym yn disgrifio'r dystiolaeth sydd ar gael am bob nodwedd, gan nodi bod bylchau sylweddol yn rhai o'r mathau o ddata ac ymchwil sydd ar gael. Felly rydym yn gofyn am farn bellach gan ymgyngoreion am gynnwys y grwpiau hyn mewn cyfreithiau ar droseddau casineb.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 4**

A ddylid gwarchod unrhyw grwpiau o blith y canlynol o dan gyfreithiau ar droseddau casineb?

- gweithwyr rhyw
- pobl ddigartref
- is-ddiwylliannau amgen (er enghraifft, gothiaid, pyncs, metallers, emos)
- credoau athronyddol (er enghraifft, dyneiddiaeth)

## Y prawf cyfreithiol am droseddau casineb

Ym Mhennod 15 rydym yn ystyried pa mor briodol yw'r prawf cyfreithiol presennol ar gyfer dangos bod trosedd gwaethygedig wedi digwydd ac ar gyfer gosod dedfrydau estynedig. Rydym yn dechrau drwy ddadlau y dylid parhau i gymhwyso'r un prawf at y ddau fecanwaith cyfreithiol er mwyn cadw symlrwydd ac eglurder yn y gyfraith.

Wedyn rydym yn ystyried dau gymal y prawf yn fwy manwl.

### Dangos gelyniaeth

Cafwyd beirniadaeth ar gymal "dangos" y prawf – a oedd y cyflawnydd wedi "dangos" gelyniaeth at y dioddefwr ynghylch â nodwedd warchodedig ar adeg cyflawni'r drosedd neu'n union o'i flaen neu ar ei ôl – ar y sail y gall osod y label difrifol iawn o "drosedd casineb" lle dywedwyd rhywbeth tramgwyddus yng ngwres yr eiliad, ond nad oedd y troseddwr o bosibl wedi'i ysgogi i gyflawni'r drosedd oherwydd casineb. Mewn amgylchiadau o'r fath, dadleuwyd nad oedd a wnelo rhagfarn neu elyniaeth fawr ddim o bosibl ag amgylchiadau'r troseddu, a'i bod yn annheg i gosbi'r diffynnydd fel troseddwr trosedd casineb. Yn fwy cyffredinol, gall danseilio effaith y label o "drosedd casineb" a pharodrwydd y gymuned i'w dderbyn os caiff ei osod mewn amgylchiadau o'r fath.

Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif ond yn nodi'r gwrthddadleuon canlynol:

- Gall ymddygiad o'r fath achosi niwed ychwanegol sylweddol i'r dioddefwr a'r gymuned ehangach, beth bynnag oedd cymhellion y troseddwr;
- Mae'r dedfrydwr (barnwr neu ynadon) yn cadw'r disgresiwn i osod dedfryd sydd ond ychydig yn uwch os yw'n credu bod y gwaethygiad o natur lai difrifol; a
- Nid yw diffyg tystiolaeth o ragfwriad yn golygu o reidrwydd nad oedd y diffynnydd yn bwriadu achosi niwed ychwanegol â'i eiriau neu ymddygiad – mae'n bosibl y bydd wedi ffurfio bwriad sydyn i wneud hynny.

Daethom i'r casgliad dylai'r agwedd hon o'r prawf, sydd wedi bod mewn defnydd am fwy na dwy ddegawd a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar yn yr Alban (a'i gynnwys ym Mil Troseddau Casineb a'r Drefn Gyhoeddus (yr Alban) a gyflwynwyd yn ddiweddar) ei chadw yng Nghymru a Lloegr.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 5**

Ein cynnig dros dro yw y dylid cadw'r sefyllfa gyfreithiol bresennol – lle gellir dangos bod trosedd casineb wedi'i gyflawni drwy brofi bod y diffynnydd wedi dangos gelyniaeth at nodwedd warchodedig sydd gan y dioddefwr.

Ydych chi'n cytuno?

### Cymhelliad - gelyniaeth a rhagfarn?

Rydym wedyn yn ystyried cymal "cymhelliad" y prawf – a yw'r drosedd wedi'i ysgogi (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth at aelodau'r grŵp gwarchodedig ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw. Credir ei bod yn llawer mwy anodd profi hyn yn ymarferol na'r cymal "dangos".

Yn benodol, rydym yn nodi'r pryder sylweddol ymysg pobl anabl ac eiriolwyr, erlynwyr, a rhai academwyr, ynghylch cyfyngiadau'r gyfraith o ran cydnabod yn briodol y niwed a achosir gan droseddau a dargedir at bobl anabl. Mae'r camfanteisio troseddol ar bobl anabl yn digwydd weithiau mewn ffyrdd sydd, er eu bod heb agweddau gelyniaethus amlwg, yn seiliedig ar ddiffyg ystyriaeth sylfaenol iddynt fel bodau dynol ac fel aelodau o'r gymuned.

Mewn ymateb i hyn, cynigiwyd prawf ehangach, sy'n ystyried a oedd y dioddefwr wedi'i dargedu "o achos" y nodwedd warchodedig. Rydym wedi ystyried y dull hwn o weithredu'n ofalus, ond yn pryderu ei fod yn rhy lydan, ac y gall gynnwys ymddygiad lle nad oes tystiolaeth bod gan y diffynnydd unrhyw ddrwgdeimlad tuag at y grŵp gwarchodedig.

Yn lle hynny, rydym yn ystyried, os yw'r prawf i gael ei ehangu, a ddylai ofyn a oedd y drosedd wedi'i "ysgogi gan elyniaeth *neu ragfarn*" at y nodwedd warchodedig.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 6**

Rydym yn gofyn am farn gan ymgyngoreion ynghylch a ddylid diwygio'r prawf cymhelliad presennol fel y bydd yn gofyn a oedd y drosedd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn at y nodwedd warchodedig.



## Troseddau gwaethygedig a dedfrydau estynedig

Cafwyd beirniadu ar gymhlethdod y dull deuol presennol o weithredu troseddau gwaethygedig a dedfrydau estynedig yr un pryd.

Rydym wedi ystyried o ddifrif y posibilrwydd o symleiddio hyn drwy fabwysiadu un mecanwaith cyfreithiol o waethygu. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad dros dro na fyddai'n ddymunol gwneud hynny gan y byddai'n sicr o olygu dileu rhai o'r gwarchodaethau sydd ar gael ar hyn o bryd:

- Byddai cael gwared o droseddau gwaethygedig yn dileu uchafgosbau wedi'w cynyddu sydd ar gael am rai troseddau sydd wedi'u gwaethygu'n hiliol a chrefyddol. Er ein bod yn cydnabod mai prin yw'r achosion lle mae angen uchafgosbau wedi'w cynyddu, rydym yn pryderu y byddai grym symbolaidd y troseddau hyn yn cael ei golli.
- Byddai dileu dedfrydau estynedig, a chadw troseddau gwaethygedig yn unig, yn dileu'r gallu i waethygu dedfryd ar gyfer unrhyw drosedd (heb greu fersiynau gwaethygedig o'r holl droseddau, sydd ddim yn ymarferol yn ein barn ni).

Cynigiwyd modelau hybrid – fel yr un a awgrymwyd gan academwyr ym Mhrifysgol Sussex – i gyfuno'r agweddau pwysicaf ar y dull presennol; yn benodol, y gallu i labelu'r drosedd yn drosedd casineb drwy ei ystyried yn drosedd gwaethygedig, a'r gallu i gymhwyso dedfrydau estynedig at yr holl droseddau.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 7**

Ein cynnig dros dro yw y dylid cadw troseddau gwaethygedig penodol a dedfrydau estynedig statudol yng nghyfraith Cymru a Lloegr.

Ydych chi'n cytuno?

Rydym wedyn yn ystyried pob un o'r modelau'n fwy manwl.

### Diwygiadau i droseddau gwaethygedig

Rydym yn ailddatgan y casgliad y daethom iddo yn 2014 nad oes rheswm egwyddorol pam na ddylai troseddau gwaethygedig gael eu cymhwyso'n gyson at bob un o'r pum nodwedd a warchodir gan gyfreithiau ar droseddau casineb. Hon hefyd oedd y neges gryfaf un a gododd o'n cyfarfodydd cyn ymgynghori.

Rydym hefyd yn credu y dylent fod yn gymwys i unrhyw nodwedd arall a ychwanegir yn dilyn ymgynghori pellach (er enghraifft, rhyw neu rywedd, oed, gweithwyr rhyw, digartrefedd, is-ddiwylliannau amgen, neu gredoau athronyddol).

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 8**

Ein cynnig dros dro yw y dylai troseddau gwaethygedig gael eu cymhwyso at bob un o'r pum nodwedd bresennol i'r yn gyfartal, ac i unrhyw nodweddion pellach a ychwanegir.

Ydych chi'n cytuno?

Rydym wedyn yn ystyried a ddylid creu fersiynau gwaethygedig o unrhyw droseddau presennol ychwanegol, ac yn awgrymu meini prawf i'w defnyddio i benderfynu ar hyn:

- Niferoedd y troseddau a'r cyffredinoldeb o droseddu casineb fel cyfran o'r drosedd;
- A oes angen creu trosedd gwaethygedig i sicrhau cysondeb ar draws cyfraith trosedd;
- A yw'r gosb sylfaen fwyaf yn ddigonol;
- A yw'r drosedd yn un lle byddai gofyniad i ddangos prawf o elfennau ychwanegol o'r drosedd o flaen rheithgor yn gallu bod yn arbennig o feichus.

Ar ôl cymhwyso'r meini prawf hyn at nifer o droseddau posib, rydym yn awgrymu bod y ddadl gryfaf yn codi ynglyn â "throseddau cyfathrebiadau" sy'n groes i adran 1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r troseddau hyn yn cael eu cysylltu'n neilltuol â cham-drin ar-lein, ac mae tystiolaeth gryf am y nifer ohonynt a gyflawnir yng nghyd-destun troseddau casineb. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad ar wahân ar hyn o bryd i edrych yn fwy manwl ar gwmpas a chynnwys y troseddau hyn.[19]

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 9**

Ein cynnig dros dro yw y dylid cyflwyno fersiynau gwaethygedig o droseddau cyfathrebiadau â chosb fwyaf uwch drwy gyfreithiau diwygiedig ar droseddau casineb.

Ydych chi'n cytuno?

Mae dadl hefyd o blaid ychwanegu'r drosedd o achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad yn groes i adran 18 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861 (DTC 1861), gan fod fersiwn waethygedig eisoes o'r drosedd llai difrifol o glwyfo maleisus neu beri niwed corfforol difrifol yn groes i adran 20 o DTC 1861. Y rheswm nad yw'r drosedd adran 18 wedi'i bennu ar hyn o bryd yw ei fod eisoes yn dwyn cosb fwyaf o garchar am oes. Fodd bynnag, gan fod cyhuddiad o'r drosedd adran 20 yn arfer cael ei ddwyn fel dewis yn lle cyhuddiad o'r drosedd adran 18, mae'r ffaith nad oes fersiwn waethygedig o'r drosedd adran 18 yn gwneud achosion troseddau casineb yn fwy cymhleth.

Mae nifer o droseddau eraill rydym yn ystyried eu cynnwys – yn enwedig dwyn, gan fod rhywfaint o dystiolaeth bod pobl anabl yn cael eu targedu ar sail eu hanabledd. Rydym yn credu bod troseddau rhywiol yn llai addas gan eu bod eisoes ymysg y troseddau mwyaf anodd eu herlyn, ac mae'r uchafgosbau mwyaf presennol yn uchel.

[19] Harmful Online Communications: The Criminal Offences (2020) Law Com Consultation Paper 248. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 18 Rhagfyr 2020 ac mae'r Papur Ymgynghori ar gael yn https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2020/09/Online-Communications-Consultation-Paper-FINAL-with-cover.pdf.

**Crynodeb o’r Ymgynghoriad: Cwestiwn 10**

Ydych chi’n credu y dylid creu fersiynau gwaethygedig o unrhyw droseddau eraill? Pam y dylid/na ddylid?

Mae’r bennod hefyd yn trafod nifer o gwestiynau mwy manwl fel:

- Pa mor briodol yw lefelau’r uchafgosbau wedi'w cynyddu;
- Y dyfarniadau amgen sydd ar gael;
- Erlyn am waethygu ar sail mwy nag un nodwedd (a’r materion cyffredinol sy’n ymwneud â rhyngblethedd mewn troseddau casineb).



### Diwygiadau i ddedfrydau estynedig

Ym Mhennod 17 rydym yn cynnig cadw’r system o ddedfrydau estynedig ar gyfer y pum nodwedd bresennol, a’i hymestyn hefyd i gynnwys unrhyw nodweddion eraill a ychwanegir yn dilyn ymgynghori pellach.

Rydym yn nodi wedyn, yng nghyd-destun dedfydau estynedig, ei bod yn bosib bod dadl o blaid cydnabod niwed a achosir drwy dargedu nodweddion heblaw’r rheini a bennwyd. Gellid cyflawni hyn un ai drwy “gategori gweddilliol”, lle gall llysoedd gydnabod grwpiau ychwanegol wrth i’r gyfraith ddatblygu, neu drwy ganllawiau dedfrydu.

**Crynodeb o’r Ymgynghoriad: Cwestiwn 11**

Ydych chi’n credu y dylai grŵp ehangach o nodweddion gael ei warchod drwy’r broses dedfrydu?

Os ydych, a ddylid cyflawni hyn drwy:

- Nodwedd weddilliol mewn dedfrydau estynedig statudol; neu
- Drwy ganllawiau dedfrydu?

Rydym hefyd yn ystyried materion eraill sy’n gysylltiedig â dedfrydau estynedig yn y bennod hon, yn cynnwys a ddylai dedfrydau estynedig fod ar gael lle byddai wedi bod yn bosibl dod â chyhuddiad o drosedd gwaethygedig ond lle na wnaed hynny.

## Troseddau ysgogi casineb

Ym Mhennod 18 rydym yn ystyried troseddau ysgogi casineb. Rydym yn cynnig y dylid ymestyn yr gwarchodaethau presennol i gynnwys anabledd, trawsrywedd a rhyw/rhywedd.

Ar hyn o bryd, gellir cyflawni'r troseddau o ysgogi casineb hiliol drwy ddefnyddio geiriau ac ymddygiad sy'n debygol neu sydd â'r bwriad o ysgogi casineb hiliol. Rydym yn cynnig y bydd y dull dau gymal presennol a gymhwysir at gasineb hiliol yn cael ei gymhwyso at yr holl nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, rydym yn cynnig diwygio'r profion hyn i roi mwy o warchodaeth rhag ysgogi casineb yn fwriadol ac i gynyddu'r warchodaeth o ryddid mynegiant lle nad oes bwriad i ysgogi casineb:

1. Lle gellir dangos bod y diffynnydd wedi bwriadu ysgogi casineb yn erbyn grŵp, ni fyddai angen dangos bod y geiriau a ddefnyddiwyd yn rhai bygythiol (neu, yn achos hil, yn ddifrïol neu'n sarhaus), ond
2. lle na phrofwyd bod bwriad i ysgogi casineb, byddai angen i'r erlyniad ddangos bod y geiriau neu ymddygiad yn fygythiol neu'n ddifrïol (nid sarhaus yn unig) a bod y troseddwr yn gwybod neu y dylai fod wedi gwybod eu bod yn debygol o ysgogi casineb.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 12**

Ein cynnig dros dro yw y dylai'r drosedd o ysgogi casineb yn fwriadol gael ei drin yn wahanol i'r defnydd o eiriau neu ymddygiad sy'n debygol o ysgogi casineb.

Yn benodol, lle gellir dangos bod y siaradwr wedi bwriadu ysgogi casineb, ni ddylai fod angen dangos bod y geiriau a ddefnyddiwyd yn rhai bygythiol, difrïol, neu sarhaus.

Ydych chi'n cytuno?

Rydym yn cynnig, lle na phrofwyd bwriad i ysgogi casineb, y dylid cymhwyso'r un trothwy at yr holl nodweddion, ac mai'r trothwy hwn fydd geiriau neu ymddygiad bygythiol neu ddifrïol.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 13**

Lle na ellir dangos bod y diffynnydd wedi bwriadu ysgogi casineb, ein cynnig dros dro yw mai dim ond geiriau neu ymddygiadau "bygythiol neu ddifrïol" sy'n debygol o ysgogi casineb (ond nid rhai "sarhaus") a ddylid eu cynnwys yn y troseddau.

Ydych chi'n cytuno?

O dan y gyfraith bresennol, mae troseddau ar wahân i ddelio â gwahanol ffyrdd o ledaenu deunydd casineb, yn cynnwys darllediadau, recordiadau, a dramâu. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno un trosedd o ledaenu deunydd ymfflamychol yn lle'r troseddau hyn, ac y dylid cysoni'r amddiffyniadau sydd ar gael i'r rheini sy'n lledaenu deunydd ymfflamychol .

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 14**

Ein cynnig dros dro yw:

- cyflwyno un trosedd o ledaenu deunydd ymfflamychol yn lle'r troseddau ar wahân i ddelio â gwahanol ffyrdd o ledaenu deunydd casineb (yn adrannau 19 i 22 a 29C i 29F o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986);
- cysoni'r amddiffyniadau sydd ar gael i ledaenwyr diniwed o ddeunydd ymfflamychol er mwyn sicrhau cysondeb.

Ydych chi'n cytuno?

Ar hyn o bryd, er bod y gyfraith yn cynnwys darpariaethau i ddangos sut mae atebolrwydd i fod i weithio ar gyfer y rheini sy'n lledaenu deunydd ymfflamychol mewn llyfrau, recordiadau, darllediadau a dramâu, nid yw'n glir sut mae atebolrwydd yn gweithio yn achos lletywyr deunydd ymfflamychol ar y rhyngrwyd. Rydym yn gofyn a ddylai'r gyfraith wneud yn glir bod gwasanaethau lletya yn gyfrifol o dan gyfraith trosedd am ddeunydd iaith casineb sydd ar gael drwy'r gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 15**

O dan ba amgylchiadau, os oes rhai, y dylai llwyfannau ar-lein fel cwmnïau cyfryngau cymdeithasol fod yn atebol o dan gyfraith trosedd am ledaenu deunydd anghyfreithlon y maent yn ei letya?

Os cedwir "gwybodaeth wirioneddol" yn ofyniad am ddangos atebolrwydd gan lwyfan, ai hon yw'r safon y dylid ei chymhwyso mewn achosion eraill am ledaenu deunydd ymfflamychol lle na ellir dangos bwriad i ysgogi casineb?

Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn cynnwys gwarchodaethau cyfreithiol penodol ar gyfer trafodaethau am grefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mewn perthynas â chrefydd, mae'r gyfraith yn dweud:

> Nid oes dim yn [y troseddau o ysgogi casineb crefyddol] a fydd yn cael ei ddarllen neu ei roi mewn grym mewn ffordd sy'n gwahardd neu'n cyfyngu trafodaeth, beirniadaeth neu fynegiadau o elyniaeth, anhoffter, gwawd, sarhad neu ddifrïo o grefyddau penodol neu gredoau neu arferion eu hymlynwyr, neu o unrhyw system gredo arall neu gredoau neu arferion ei hymlynwyr, neu broselytio neu annog ymlynwyr crefydd neu system gredo wahanol i beidio ag arfer eu crefydd neu system gredo.[20]

[20] Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, adran 29J.

Ynglyn â chyfeiriadedd rhywiol, mae'r gyfraith yn dweud:

> [Ynglyn â'r troseddau o ysgogi casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol], i osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd trafod neu feirniadu ymddygiad neu arferion rhywiol neu annog personau i ymatal rhag neu newid ymddygiad neu arferion o'r fath… [neu] unrhyw drafod neu feirniadu ar briodas sy'n ymwneud â rhyw partïon y briodas yn cael ei gymryd ohono'i hun i fod yn fygythiol neu i fod â'r bwriad i ysgogi casineb.[21]

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r rhain ac yn gofyn a ddylid cynnwys warchodaethau tebyg ynglyn â'r nodweddion newydd y bwriadwn eu cynnwys.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 16**

Ein cynnig dros dro yw:

- y dylai'r gwarchodaethau presennol ar gyfer trafod crefydd a chyfeiriadedd rhywiol gael eu cymhwyso at y drosedd newydd o ysgogi casineb;
- y dylid rhoi gwarchodaethau tebyg mewn perthynas â hunaniaeth drawsryweddol, rhyw/rhywedd ac anabledd.

Ydych chi'n cytuno ac, os ydych, beth ddylai'r rhain ei gynnwys?

## Troseddau pêl-droed

Ein cynnig dros dro yw y dylai llafarganu hiliol mewn gêm bêl-droed gael ei gynnwys o hyd mewn trosedd ar wahân, er y byddai'r ymddygiad hwn yn dod o dan droseddau eraill sy'n droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus mewn llawer achos. Y rhesymau pennaf am hyn yw'r risgiau presennol a hanesyddol penodol sy'n gysylltiedig â llafarganu mewn gemau pêl-droed, ac am y byddai dileu'r troseddau'n gallu arwain at ddad-droseddoli mathau penodol o ymddygiad lle nad yw hynny'n briodol.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 17**

Ein cynnig dros dro yw y dylid cadw llafarganu hiliol mewn gemau pêl-droed yn drosedd ar wahân.

Ydych chi'n cytuno?

Rydym hefyd yn cynnig dros dro y dylid ymestyn y drosedd i gynnwys llafarganu sy'n targedu cyfeiriadedd rhywiol person, ac yn gofyn a ddylai hyn fod yn gymwys i'r holl nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 18**

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r drosedd yn adran 3 o Ddeddf Pêl-droed (Troseddau) 1991 gael ei ymestyn i gynnwys llafarganu seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol.

Ydych chi'n cytuno?

Rydym hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan ymgyngoreion ynghylch pa mor gyffredin yw llafarganu gwahaniaethol sy'n targedu nodweddion heblaw hil

[21] Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, adran 29JA.

a chyfeiriadedd rhywiol, a byddem yn falch o gael sylwadau ynghylch a ddylid ymestyn y drosedd i gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig.

Mae'r drosedd presennol yn gyfyngedig i "lafarganu". Rydym yn gofyn a ddylid ymestyn y drosedd i gynnwys mathau eraill o ymddygiad fel gwneud ystumiau a thaflu pethau. Rydym hefyd yn gofyn a ddylid cysoni'r drosedd hon â throseddau pêl-droed eraill fel y bydd yn cynnwys ymddygiad wrth ddod i mewn neu fynd allan o faes chwarae ac wrth deithio i faes chwarae.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 19**

A ddylid ymestyn y drosedd o dan adran 3 o Ddeddf Pêl-droed (Troseddau) 1991 i gynnwys ystumiau a thaflu pethau?

A ddylid ymestyn y drosedd o dan adran 3 o Ddeddf Pêl-droed (Troseddau) 1991 i gynnwys siwrneiau yn ôl ac ymlaen i gêm bêl-droed ddynodedig?

## Comisiynydd Troseddau Casineb?

Yn y bennod olaf rydym yn ystyried y ddadl o blaid cyflwyno Comisiynydd Troseddau Casineb. Rydym yn ystyried a fyddai Comisiynydd Troseddau Casineb yn gallu cyfrannu at ddelio â rhai o'r pryderon sydd gan ddioddefwyr a amlinellwyd ym Mhennod 7, a helpu i weithredu ymatebion anhroseddol mwy effeithlon, i atal a lliniaru'r effeithiau niweidiol o droseddau casineb yn y gymuned. Rydym hefyd yn trafod dadleuon yn erbyn cyflwyno Comisiynydd Troseddau Casineb. Yn benodol, rydym yn gofyn a fyddai'r gost, a fyddai'n debygol o fod rhwng £500,000 a £750,000 y flwyddyn, yn ddefnydd effeithlon o arian cyhoeddus.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Cwestiwn 20**

A ddylid cyflwyno Comisiynydd Troseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr?

